

RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod hybrid o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 15 Medi 2026.

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowle, John Ifan Jones, Euryr Morris, Pip O'Neill, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts

Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo - ar gyfer eitem 4

Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Newid Hinsawdd (ar gyfer eitemau 5 a 6).

Ymddiheuriadau:

Y Cynghorydd Derek Owen.
Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion

Hefyd yn Bresennol: Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd Carwyn Jones - Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol,
Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd,
Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg,
Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;
Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

(2.00 o'r gloch yp - 4.20 o'r gloch yp)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026 yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Ymgynghoriad ar Ardoll Ymwelwyr
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- Nad yw'r Cyngor yn mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr o ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad

	yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith. • Bydd y Cyngor yn monitro, adolygu ac yn ystyried tystiolaeth effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a ddewisodd mabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol. • Bydd y Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Arweinydd, yn ysgrifennu llythyr ar Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethau bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr o'r fath at Lywodraeth Cymru gyda'r holl aelodau etholedig.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Casglu Gwastraff ac Ail-gylchu
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD :- • Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy gasglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240litr presennol, o 2029. • Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu erbyn 2029 drwy: • gasglu cardfwrdd a phapur gyda'u gilydd yn y bocs top y trolibocs. • gynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd ac/ neu plastig caled a chaniau ychwanegol. • Cyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio. • Cynnal ymchwil i ymestyn y deunydd sy'n cael ei gasglu i'w ailgylchu i gynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill. • Symud ymlaen i ddatblygu a cyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid i Llywodraeth Cymru.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Masnachfreinio Bysiau - Llwybrau Bysiau Arfaethedig
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:-

- | | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none">• Nodi bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn fel rhan o'u gwaith paratoi ar gyfer masnachfreinio.• Bod y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 9 Hydref, 2026, drwy gefnogi'r rhwydwaith bysiau arfaethedig y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ddatblygu ond bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r llwybrau bysus yn y dyfodol. |
|--|--|